



# CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 25.11.2017

## Taith i'r Ysgwrn

Ar yr 15 o Dachwedd, teithiodd grŵp o 9-4 a 9-5 i'r gogledd ar fws i ymweld â'r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd, cartref y bardd Ellis Evans, sef Hedd Wyn. Pan gyrhaeddon ni yna cawsom gyflwyniad pŵerbwynt ar gefndir Ellis. Fe ddysgon ni lawer, roedd yn ddiddorol iawn.



Yna aethon ni i mewn i'r tŷ i gael sgwrs gan un o'r gweithwyr. Roedd y tŷ yn fychan o'i gymharu â thai heddiw. Esboniodd y tywysydd yr offer a oedd yn y gegin. Doedden ni ddim wedi clywed am hanner ohonynt o'r blaen! Clywsom hefyd am farddoniaeth Hedd Wyn ac am hanes y Gadair Ddu. Ar ôl bod yna am ddwy awr, teithion ni yn ôl ar y bws i'r ysgol. Roedd yn daith hir ac yn flinedig. Diolch yn fawr iawn i athrawon yr adran Gymraeg am drefnu i ni fynd ar y daith. Cawsom ddiwrnod grêt!

Adroddiad gan Ffion Raymond ac Elicia Quick 9-4.

## Llwyddiant y tîm siarad cyhoeddus

Llongyfarchiadau i dîm Siarad Cyhoeddus yr ysgol sef Heledd Jones, Ceris James a Garmon Dyfri ar ddod yn ail yn rownd derfynol genedlaethol y Rotari mewn cystadleuaeth eithriadol o safonol yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd ar y 13eg o Dachwedd.

Fe lwyddodd Heledd Jones i ennill y wobr gyntaf am y cynigydd gorau yn y gystadleuaeth gyda Garmon Dyfri yn ennill yr ail wobr am y gwrthwynebydd gorau. Ceris James hefyd yn cael ei chydnabod fel un o'r cadeiryddion cryfa'. Roedd y tîm felly o fewn trwch blewyn i ennill y gystadleuaeth.

## Llwyddiant i Fro Myrddin yn yr Ŵyl Gerdd Dant

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Fro Myrddin am ennill dwy o'r prif gystadlaethau ar gyfer ysgolion uwchradd yn yr Ŵyl Gerdd Dant a gynhaliwyd yn Bro Teifi, Llandysul ar ddydd Sadwrn yr 11eg o Dachwedd.

Enillwyd y wobr gyntaf gan barti gwerin yr ysgol o dan arweiniad Mrs Meinir Richards a pharti cerdd dant yr ysgol o dan arweiniad Mrs Nia Clwyd Davies. Roedd llwyddiant mawr hefyd i Elin Fflur o flwyddyn 11 am ennill yr alaw werin blwyddyn 7-11. Braf hefyd oedd gweld nifer o ddisgyblion ac athrawon yr ysgol ar y llwyfan yn cystadlu gyda grwpiau amrywiol. Llongyfarchiadau i bawb. Gŵyl i'w chofio yn sicr.

## Taith i'r Synagog a'r Gwrdwara

Ar y 26ain o Hydref, teithiodd blwyddyn saith yr ysgol i Gaerdydd i ddysgu mwy am y Synagog a'r Gwrdwara. Yno cafwyd cyfle i ddysgu am grefyddau diddorol ac am eu traddodiadau. Oeddech chi'n gwybod fod calendr yr Iddewon yn wahanol i'n rhai ni?

Tu fewn i'r Synagog roedd hi'n lliwgar iawn ac yn llachar â'r ffenestri lliw i gyd yn cynrychioli stori wahanol. Roedd yr adeilad yn fodern ac yn lân, roedd yn amlwg ei fod yn cael ei ofalu amdano yn dda. Am eu pennau, gwisgodd y bechgyn 'cippa' sef hat arbennig ar gyfer Iddewon gwrywaidd. Y tu ôl i'r arch roedd sgrôlau enfawr ac anfeidrol o drwm, yr un maint â chae phêl

**droed! Cafwyd cyfle i arogli gwin melys yr ‘Etrog’, sef ffrwyth sydd fel lemwn ac sydd yn ddrud iawn. Tua £20-£30 yr un!**


**Tu fewn i’r Gwrdwara, roedd hi’n wahanol iawn, ond dal i fod yn lliwgar ac yn llachar. Siaradodd Mr Bhogal am hanes diddorol y Gwrdwara a’r Sikhiaid, tra chwifiodd Sikh arall Chauri dros ben y Guru Granth Sahib oedd ar y Takht, sef y llwyfan amryliw. Canodd y Sikhiaid mewn iaith pwnjabi. Cyn mynd i eistedd cafodd y merched a’r bechgyn eu gwahanu, cawson nhw gyfarwyddyd i dynnu eu hesgidiau, golchi eu dwylo a gwneud yn siŵr fod sgarff neu dwrban am eu pennau. Ar ôl gwrando’n astud, aeth y plant a’r athrawon i’r ffreutur lle cawson nhw fisgedi a diod a brechdanau blasus.**

**Yn ôl geiriau un o’r disgyblion - “Roedd y daith yn ddiddorol iawn ac roedd y ddau le, y Synagog a’r Gwrdwara, yn wahanol iawn. Tu fewn i’r ddau le, roedd hi’n lliwgar ac yn hudol. Roedd popeth mor dawel a heddychlon yna, yn enwedig pan oedd y bechgyn yr ochr arall o’r ystafell!”**

**Meddai disgybl arall, “Dysgom ni lawer am grefyddau'r bobl ac am eu traddodiadau gwahanol. Mae eu bywydau yn wahanol iawn i’n bywyd ni. Mae Nadolig yr Iddewon ar ddyddiad fy mhen blwydd i, sef y 12fed o Ragfyr!”**

**Gobeithio y bydd mwy o ysgolion yn cael y profiad yma i ddysgu am grefyddau diddorol ac am draddodiadau gwahanol. Hoffwn ddiolch i’r adran Addysg Grefyddol am drefnu’r daith.**

**Adroddiad gan Martha Jones 7-4**



NOSON O GOMEDI GYMRAEG  
**ELIS JAMES**  
a ffrindiau

Theatr Y Lyric

Nos Wener 26ain o Ionawr 2018 7.30 yh

Mynediad £12

Elw i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin